# Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18

## Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018
Cyfeirnod y ddogfen: 731A2018-19



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Andy Bruce a Mark Jones dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2017-18 4

Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 4

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18 5

## Atodiadau

Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn 10

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 11

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2017-18

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth gronedig o waith archwilio ac arolygu, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill a oedd ar gael, gan gynnwys dulliau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) ei hun o adolygu a gwerthuso.

2 Mae'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, wedi'i nodi yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus

3 Yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2018-19.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwirio yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig, a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol na chynigion ar gyfer gwella. Fodd bynnag, byddwn yn monitro cynnydd o'i gymharu â rhai o'r cynigion blaenorol ar gyfer gwella ac unrhyw argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

## Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

### Arddangosyn 1 – gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2017 | **Llythyr archwilio blynyddol 2016-17**<br>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau; ac<br>• Mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau. | Dim |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | |
| Ebrill 2017 | **Archwiliad o'r cynllun gwella blynyddol**<br>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. | Dim |
| Tachwedd 2017 | **Archwiliad o'r asesiad blynyddol o berfformiad**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad yr Awdurdod. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Gwaith dilynol 2016-17 | **Adolygiad o drefniadau rheoli asedau - cyhoeddwyd ym mis Hydref 2017**<br>Yn ystod 2016-17 gwnaethom ni adolygu effeithiolrwydd dull yr Awdurdod o reoli ei dir a'i adeiladau gan gynnwys rhannu cyfleusterau. | **Cynnydd yn 2017-18:**<br>Mae ffrwd eiddo Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC) wedi'i sefydlu i nodi arbedion, arbedion effeithlonrwydd a buddion economaidd trwy weithio'n gydweithredol. Un o'r meysydd allweddol i'w ddatblygu yw meincnodi, a chytunwyd ar yr amcan canlynol:<br>Cytuno ar ddulliau cyffredin o asesu dangosyddion allweddol o ran tir ac adeiladau er mwyn gallu cymharu perfformiad a dangos effeithiolrwydd strategaethau asedau. Bydd hyn yn cynnwys casglu data asedau allweddol yn yr holl Wasanaethau Tân ac Achub i sefydlu llinell sylfaen.<br>Bydd rhagor o weithdai yn cael eu trefnu i gytuno ar y ffordd orau o gasglu setiau data'r Awdurdod.<br>Cyflwynir materion eiddo lefel uchel i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Awdurdod Tân.<br>Nid oes unrhyw fwriad i ddatblygu cynlluniau manwl na gweithdrefnau adrodd o ran y Grŵp Adolygu Prosiectau Ystadau.<br>Caiff yr amserlen arolygon cyflwr ei diweddaru yn dilyn unrhyw waith a wneir sy'n effeithio ar gyflwr ffabrig yr adeilad. Caiff y ddogfen hon ei defnyddio yn sail i raglen dreigl wedi'i diweddaru o arolygon cyflwr a fydd yn dechrau yn 2019-20. | **Cynigion ar gyfer Gwella mis Hydref 2017**<br>Cryfhau trefniadau rheoli asedau trwy:<br>**C1** Cytuno ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru ar ddulliau cyffredin o asesu dangosyddion allweddol o ran tir ac adeiladau i allu cymharu perfformiad a nodi tueddiadau sy'n datblygu; a<br>**C2** Gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad archwilio mewnol ym mis Tachwedd 2016 o fewn yr amserlen benodedig. Mae angen llunio cynllun gweithredu i gofnodi gwaith y Grŵp Adolygu Prosiectau Ystadau a'i fonitro. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Gwaith dilynol 2015-16 | **Adroddiad trefniadau diogelwch tân**<br>Yn ystod 2015-16, gwnaethom ni adolygu trefniadau diogelwch tân yr Awdurdod i asesu sut y cynlluniwyd gweithgareddau; sut yr oedd yn cael ei gyflawni ac a fyddai modd gwerthuso effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gweithgareddau. Gwnaethom ni waith dilynol ar gynnydd yr awdurdod o ran gweithredu ar ein cynigion ar gyfer gwella yn 2017-18. | **Cynnydd yn 2017-18:**<br>Derbyniwyd yr adroddiad trefniadau diogelwch tân gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r ddau gynnig ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yng nghylch pwyllgor cyllid, archwilio a pherfformiad yr Awdurdod i fonitro cynnydd a chamau gweithredu.<br>**Cyflwyno dangosyddion perfformiad lleol**<br>Mae dangosyddion perfformiad lleol yn rhoi gwybodaeth bwysig i'r Awdurdod am gynnydd o'i gymharu ag amcanion strategol. Mae'r dangosyddion yn galluogi'r Awdurdod i fonitro cynnydd o'i gymharu â gweithgareddau o ddydd i ddydd a nodi lle y gellir gwneud cynnydd, wrth gydnabod a rhannu arferion da.<br>Diben dangosyddion lleol yw galluogi'r Awdurdod i fonitro cynnydd ar lefel leol a sicrhau bod gweithgareddau yn cyfrannu at yr amcanion strategol lefel uwch. Mae hefyd yn galluogi'r Awdurdod i herio prosesau a systemau i sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.<br>**Rheoli Risg (Rhaglen Arolygu ar sail Risg - RBIP)**<br>Mae'r RBIP yn rheoli dull yr Awdurdod o gyflawni rhaglen ail-arolygu ragweithiol wedi'i chynllunio ymlaen llaw. Pan fydd swyddogion tân yn archwilio safleoedd, maent yn cynnal archwiliad diogelwch tân i bennu lefel y risg. Mae'r sgôr risg yn deillio o nifer o feysydd, fel lefel y risg i fath arbennig o eiddo; lefel y rheolaeth diogelwch tân sydd ganddo a ffactorau eraill fel maint a nifer y bobl sydd ynddo. Ar sail hyn, pennir amserlen ail-arolygu'r eiddo, a chaiff yr eiddo lle ceir y risg fwyaf eu harolygu'n fwy rheolaidd. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Gwaith dilynol 2015-16 (parhad) | | Y tu hwnt i'r rhaglen ail-arolygu a gynlluniwyd, mae'r Awdurdod yn gwneud gwaith sy'n dod i'r amlwg sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymateb yn fwy adweithiol. Gwaith fel arolygon ar ôl tân, cwynion honedig o risg tân ac ymholiadau sy'n ymwneud â thân. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydweithredu'n agos ag asiantaethau eraill fel adrannau Rheoli Adeiladu yr awdurdodau lleol ac arolygwyr cymeradwy o dan ofynion y Rheoliadau Adeiladu, adrannau Trwyddedu a Thai Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol ar gydymffurfio o fewn yr holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thân.<br>Mae hyn yn darparu dull deuol o leihau risg a dull mwy rhagweithiol o gyflawni rhaglenni arolygu ac ailarolygu. Mae meddu ar ddealltwriaeth glir o'r galw posibl yn galluogi'r Awdurdod i barhau i fod yn hyblyg a symud adnoddau yn ôl yr angen.<br>**System Rheoli Gwybodaeth Newydd**<br>Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gydag Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr i ddatblygu System Rheoli Gwybodaeth agored. Dylai'r system hon fod yn weithredol yn y dyfodol agos.<br>Mae cyfathrebu parhaus rhwng y ddau awdurdod ynghylch darparu'r system hon sy'n ffurfio rhan o'r prosiect G2D. Pan fydd ar gael, bydd y feddalwedd yn darparu adroddiadau sy'n ystyried dangosyddion risg dynamig a fydd yn caniatáu i'r RBIP adlewyrchu'n gywir y risg bresennol mewn adeiladau yn ardal yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod wedyn mewn gwell sefyllfa i gyfateb adnoddau i'r risg, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd Cymunedau Busnes yn Ne Cymru.<br>Ceir cynigion i **ddatblygu strategaeth arolygu proffil risg wedi'i seilio ar gydymffurfiaeth**, a hynny ar y cyd â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Amcan y fenter hon yw gwella'r system rheoli gwybodaeth trwy nodi eiddo masnachol sydd â risg uwch; gan gynnwys yr adeiladau preswyl mwy bregus a chymhleth. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Nid oes unrhyw adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio wedi'u cynnal yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. | | | |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir yn gynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau.'

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, trwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) a yw'n credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a gaiff eu hadrodd i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Gweithgaredd ategol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

**Cyfeirnod:** 273A2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Tachwedd 2017

Y Cynghorydd D T Davies
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

Annwyl Gynghorydd Davies

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 27 Medi 2017 rhoddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2016-17, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Awdurdod Tân ar 25 Medi 2017 yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.[1] Y materion archwilio pwysicaf oedd:

- nifer fawr o wallau yn y datganiadau ariannol a'u cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer CIPFA.
- diffyg llwybr archwilio clir a dogfennaeth ategol mewn meysydd allweddol fel y cyfriflyfr ariannol diwedd y flwyddyn a thaliadau pensiwn.
- roedd Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cyfrif am daliadau pensiwn yn ymwneud â Mai 2016-Ebrill 2017 yn natganiadau cyfrifyddu 2016-17, yn hytrach na'r rhai yn ymwneud ag Ebrill 2016-Mawrth 2017. O ganlyniad, cafwyd camddatganiadau nas addaswyd yn y datganiadau cyfrifyddu. Fodd bynnag, ni wnaeth y rhain effeithio ar y farn archwilio.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2017

1 www.southwales-fire.gov.uk

## Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

O ganlyniad i'r materion a nodwyd yn ystod yr archwiliad ac yr hysbyswyd yr Awdurdod ohonynt ar 25 Medi 2017, bu'n rhaid i ni wneud rhywfaint o waith ychwanegol. Canolbwyntiodd y materion hyn ar ansawdd y datganiadau cyfrifyddu a'r cofnodion ategol.

O ganlyniad, codir ffioedd o £3,711 yn ogystal â'r ffi amcangyfrifedig o £57,022 a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017. Bydd ffi amcangyfrifedig 2017-18 o fewn paramedrau graddfa ffioedd awdurdodau tân ac achub, a gaiff eu hamlinellu yng nghynllun ffioedd cyhoeddedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018-19.

Yn gywir



**Mark Jones**

**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc. Huw Jakeway, Prif Swyddog Tân

Sally Chapman, Dirprwy Brif Swyddog

Chris Barton, Trysorydd a Swyddog Adran 151

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru